# Yr oedd Iolo yn un o Gymry'r Seiri Rhyddion

## CLEDWYN WILLIAMS a'r hen draethawd

BYDDAF yn cael pleser wrth droi tudalennau y gyfrol brin *Cynyrchion Eisteddfod Sarn Meillteyrn* 1882 a blasu o gynnyrch bro wasgaredig uniaith Gymraeg, yng nghanol gwlad Llŷn, dros ganrif yn ôl. Hwyrach fod yn rhaid rhyfeddu o weld y testun am y prif draethawd — 'Y Seiri Rhyddion' — a phendroni beth a gymhellodd y pwyllgor i ddewis y pwnc.

Rhoddwyd y wobr i 'Glan Menai', Griffith Jones, genedigol o Lanfairfechan yn ôl *Y Bywgraffiadur Cymreig;* y beiniaid oedd y Parch O. Jones Llandudno, Ellis Wyn o Wyrfai a Gwilym ap Gwilym Lleyn. Teg yw gofyn pa gefndir oedd eiddo'r buddugol, yn y cyswllt yma; a pha gymwysterau a gwybodaeth oedd gan y beirniaid i gloriannu'r cynhyrchion.

Hwyrach fod haen o ddylanwad ysweiniaid goludog y fro ar y pwyllgor; mae'n wybyddus fod cefnogaeth yn dod o gysylltiad gwŷr cefnog a galluog 'Madryn'.

Yn 1862 anfonwyd Lewis Jones a'r Capten Love Jones-Parry, Madryn, i archwilio'r wlad ym Mhatagonia a thrysorir creiriau perthnasol o eiddo'r gŵr o Fadryn gyda mawr barch o hyd yn Y Wladfa.

'Rwyf yn digwydd gwybod mai y Parch. Nicholas Edwards, oedd offeiriad plwyf Sarn Meillteyrn tua diwedd y ddeunawfed ganrif. 'Roedd yn nai i'r Meddyg Humphrey Edwards o Lanrug, yn fab i'r Parch. Nicholas Edwards, rheithor Llandyfrydog, Môn, a Margaret chwaer y meddyg.

Heb amheuaeth Humphrey Edwards oedd yr aelod mwyaf dylanwadol ymysg y Seiri Rhyddion yng nghyffiniau Arfon a Môn o chwedegau i wythdegau y ddeunawfed ganrif. Sefydlodd y gyfrinfa 'Mona' yng Nghaergybi yn 1768, a'r gyfrinfa 'Snowdon' yng Nghaernarfon yn 1786. Hwyrach fod ei ddylanwad, oherwydd ei gysylltiad agos â'r offeiriad, yn dal o bwys yng nghyffiniau Sarn Meillteyrn yn 1883.

* * * *

MAB I reithor Llanrug, plwyf ar derfyn plwyf Llanbeblig, Arfon (y Llan cyntaf yng Nghymru — *The Story of St. David of Wales,* Diana Leatham) oedd y Meddyg Humphrey Edwards. Ar y pryd 'roedd y Parch. Robert Edwards a'r teulu yn byw yn Tŷ Gwyn tu mewn i ffiniau'r plwyf. Gelwir y tŷ ar hyn o bryd yn Plas Gwyn. Gellir yn hawdd ei ddisgrifio ar hyn o bryd fel maenordy bychan, o fri a disgleirdeb arbennig.

'Roedd gan y rheithor ddiddordeb mewn llenyddiaeth Gymraeg, yn meddu ar gasgliad gwerthfawr o lawysgrifau y Parch. Evan Evans (Ieuan Brydydd Hir). Er mwyn cael rhagorach bywoliaeth aeth y rheithor drosodd i'r Ynys Werdd.

Yn ôl ei alwedigaeth, 'roedd Humphrey Edwards yn feddyg a llawfeddyg; a'i gyfraniad pwysicaf i hanes yw iddo fod yn llawfeddyg ar ymgyrch forwrol i gefnforoedd y de a hwyliodd allan yn 1764.

Cynhwysai'r ymgyrch ddwy gadlong hwyliau, y 'Dolphin' a'r 'Tamar' a oedd o dan ofal y Capten, y Gwir Anrhydeddus John Byron, taid y bardd. Humphrey Edwards oedd y llawfeddyg a'r capten.

'Rwyf wedi damcanu mai o dan ddylanwad Byron yr ymddiddorodd y meddyg yn y Seiri Rhyddion, gan i'r Arglwydd Byron fod yn bennaeth, yn ei amser, tua chanol y ddeunawfed ganrif.

Gadawodd y ffrigadau y 'Downs' ar yr 21ain o Fehefin, 1764, gyda gorchymyn i archwilio'r tir a elwid yn 'Pepys Island' a oedd rywle yn y cyffiniau rhwng Penrhyn Gobaith Da a Chulfor Magellan, a hefyd i alw yn Ynysoedd Falklands, nad oeddynt hyd hynny wedi eu harchwilio a'u mesur yn ddigonol.

Dyfynnaf o 'Log' y Capten Bryon:

> *'Ar Ionawr 12fed 1765 cyrhaeddodd yr Ymgyrch Ynysoedd y Falklands. 'Rwyf ar hyn yn eu hawlio i'r Brenin Siôr II. Nid oes dystiolaeth o gwbl fod unrhyw berson yn byw ar yr Ynysoedd.'*

Dyfynnaf ymhellach:

> *'Amgylchynnodd llawfeddyg y 'Tamar' ddarn o dir ar bwys ffynnon o ddwfr, a chlawdd o bridd, a phlanu nifer o lysiau bwytadwy, fel gardd, yn fendith, i'r rhai, a ddaw, yn y man, i'r lle hwn.'*

* * * *

WEDI I'R Capten Byron gwblhau mesur ac archwilio Ynysoedd Falklands, penderfynodd heb betruso o gwbl, mai yr un oeddynt â'r 'Pepys Island'.

'Rwyf wedi darganfod beddrod Humphrey Edwards ym mynwent eglwys y plwyf, Llanrug. Llechfaen drwchus ar ei gwastad ar seiliau o briddfeini, y math sy'n cael ei adnabod fel 'cist'.

Mae'r geiriau canlynol wedi eu torri ar y garreg:

> *Here lieth the body of Humphrey Edwards, Surgeon and Apothecary, son of the Rev. Robert Edwards, late Rector of this Parish. He was a person eminent in his profession, and of respectable acquaintance. After sailing round the world as Surgeon of His Majesty'n Frigate Tamar, he settled at Caernarfon and died there, the 26th November 1788 aged 58.*
>
> Paid a'm bedd, Gad im heddwch
> O'r lle na wasgar fy llwch.

Mae cofnod ar gael fod rhan o dreuliau'r angladd wedi cael eu talu gan 'Glwb' neu 'Gymdeithas Gyfeillgar' o gyffiniau Caergybi.

Mae cylchau a llinellau wedi eu torri a'u naddu ar wyneb y llechfaen, ac awgrymwyd mewn papur lleol, hwyrach fod arwyddocâd arbennig yn y rhain. Hawdd fuasai dweud mai ffrwyth fandaliaeth ydynt, a hwyrach mai dyna yw'r gwirionedd.

O ddiddordeb: 'roedd rhaglen Gymraeg yn lled ddiweddar, ar 'Gychod Pysgota Caernarfon'. Enw un o'r cychod sy'n hwylio o'r porthladd y dyddiau yma yw 'Tamar' ond mae'n amheus iawn a ŵyr y perchennog presennol am yr etifeddiaeth, bri ac enwogrwydd yr enw.

* * * *

CYDOESAI'R Capten y Gwir Anrhydeddus John Byron â'r Capten Cook, a hwyliai'r ddau Gefnforoedd y De, bron ar yr un cyfnod. Llawfeddyg y Capten Cook oedd Dafydd Samwell, mab rheithor Nantglyn, Clwyd. Adweinid ef ymysg y beirdd ac eisteddfodwyr fel Dafydd Ddu Feddyg. Ni sylwais ar dystiolaeth o gwbl yn y wasg ei fod yn aelod o'r Seiri Rhyddion, ond 'roedd yn gyfaill personol ag un o'r aelodau mwyaf blaenllaw o'r amser cynnar yna — Edward Williams, a adweinid yn y cylchoedd llenyddol, eisteddfodol a barddonol, fel Iolo Morganwg.

'Roedd Samwell yn bresennol gyda Iolo ar 'Primrose Hill' yn Llundain, ar Ŵyl Ifan, yr 21ain o Fehefin, 1792, pan sefydlodd Iolo y seremoni a'r ddefod liwgar 'Gorsedd y Beirdd'.

Dyma'r sylfaen o hyd i'r pasiant o goroni a chadeirio'r beirdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol flynyddol, sydd gymaint cymorth i gadw a chyfnerthu ein diwylliant a'n traddodiadau fel cenedl. Cyfansoddodd Iolo Morganwg 'Weddi'r Orsedd' ar gyfer Eisteddfod Dinorwig, plwyf Llanddeiniolen, Hydref 16eg, 1799, a dyma'r weddi sydd yn cael ei llafarganu ym mhob Eisteddfod Genedlaethol.

Ar un amser 'roedd y Duc Sussex yn bennaeth trwy Gymru a Lloegr ar y Seiri Rhyddion; brawd i'r Duc Caint, oedd yn dad i'r Frenhines Fictoria. Trwy gydol ei oes 'roedd yn gefnogol i hyrwyddo'r diwylliant Cymraeg a'r Eisteddfodau Cymraeg; yn ieithydd gorwych, yn feistr ar yr Hen Destament, a lle i gredu ei fod yn hyddysg yn ein hiaith.

Aeth yn arbennig i Ysgol Ramadeg Amwythig tua'r flwyddyn 1829 i astudio, meddir, gyfieithiad cynnar Cymraeg o'r Salmau; tua thri chan mlynedd o flaen cyfieithiad yr Esgob William Morgan 1587 (cyhoeddwyd yn 1588). Yn ddiweddarach llywyddodd Gyngres Beirdd Cymru, yn Ninbych.

* * * *

MAE EI hanes yn cefnogi eisteddfod arall yn Ninbych dair blynedd yn ddiweddarach yn 1832. O Ddinbych gwnaeth ei ffordd tua thre Biwmares, Ynys Môn. 'Roedd eisteddfod arbennig wedi ei threfnu yno, a gan fod y Dywysoges Fictoria yn bresennol fe'i galwyd yn 'Eisteddfod Frenhinol Beaumaris'. Rhoddodd y Duc ei gefnogaeth lwyr i'r eisteddfod yma.

Cymaint oedd boddhad dinasyddion Biwmares o dderbyn cefnogaeth gŵr o'i dras fel y gwnaethpwyd ef yn Rhyddfreiniwr y Fwrdeistref, a chyflwynwyd iddo 'Anerchiad' rhagorol yn tystio i'w gwerthfawrogiad o'i gefnogaeth. Ar ei ymweliad â Biwmares arhosai yng Nghraigydon.

Bardd mwyaf Môn, wrth reswm, oedd y Parch. Goronwy Owen. Gwelir yn ei Lythyrau (Golygwyd gan Syr John Morris-Jones) ei fod yn Gaplan Cyfrinfa o'r Seiri Rhyddion yn Walton, Lerpwl, yn 1753. Ar y pryd hynny gwasanaethai fel curad yn Eglwys St. Mair yn y pentre', fel ag yr oedd yn yr oes honno.

Mewn llythyr arall o'i eiddo, mae'n llawdrwn iawn ar William Morris (Pentrerianell) am nad oedd William Morris yn gefnogol iawn i'r Seiri Rhyddion.

## Diwedd y Gymdeithas Lyfryddol

DAETH gweithgarwch y Gymdeithas Lyfryddol Gymreig i ben ers peth amser bellach. Erbyn hyn mae Ysgrifennydd y Gymdeithas, gyda chaniatâd aelodau'r Cyngor, wedi cau pen y mwdwl ar weithgareddau'r Gymdeithas ac mae'r arian oedd ar ôl yn y banc, sef cyfanswm o 324.44 wedi ei drosglwyddo i gyfrif Cymdeithas Bob Owen.

Wrth ddiolch am y rhodd hael hon yr ydym ar yr un pryd yn siomedig fod y Gymdeithas Lyfryddol Gymreig wedi dod i ben ei thaith. Mawr hyderwn y medr Cymdeithas Bob Owen gymryd lle yr hen Gymdeithas.

Mae ôl-rifynnau o gylchgrawn y Gymdeithas Lyfryddol ar gael o'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.